

Diwedd Blwyddyn

Darllen: Hebreaid 4:16

Wrth i'r hen flwyddyn hel ei thraed ati byddwn yn dechrau meddwl am y flwyddyn newydd, a dyma'r cyfnod y byddwn yn meddwl am yr addunedau. Fyddwch chi'n mynd ati i lunio addunedau a'u cadw'n ddeddfol gydol y flwyddyn neu'n eu llunio a thorri pob un ohonyn nhw cyn bod mis Ionawr wedi dod i ben? Ai profiad yr emynydd yw ein profiad ninnau, 'Gwnes addunedau fil i gadw'r llwybr cul ond methu 'rwy'? Rydyn ni i gyd yn bwriadu'n dda, ond mor aml yn syrthio'n brin o'r nod. Mae Llyfr y Pregethwr yn dweud yn blaen, 'Y mae'n well iti beidio ag addunedu na pheidio â chyflawni'r hyn yr wyt wedi ei addunedu' (Pregethwr 5:5). Fel dilynwyd i Iesu, beth am i ni ystyried yr addunedu hyn o ddifrif.

Pa mor ffyddlon ydyn ni yn yr oedfaon o Sul i Sul? Mae gan bob un ohonon ni fyrdd o esgusodion. Gweithio yn ystod yr wythnos, ac felly mae'r Sul yn gyfle i siopa. Mae'n rhaid mynd a'r plant i'r ymarfer rygbi a phêl-droed bob bore Sul. Mae'n gyfle i'r gŵr dacluso o amgylch y tŷ, golchi'r car a chwynnu'r ardd. A dyma un esgus a glywais yn ddiweddar, 'Mae'n well gen i fod adref efo fy Meibl na bod yng nghwmni pobl mor wenwynllyd a rhagrithiol'. Lle i bechaduriaid, sef pobl sydd wedi methu â chyrraedd y nod, ydi'r eglwys ac rwy'n siŵr fod yna le i un arall yn eu plith! Beth am feddwl am yr oedfa, nid fel profiad diflas a beichus, ond fel profiad dyrchafol i'w fwynhau mewn llawenydd am ein bod yn dathlu buddugoliaeth fwyaf y canrifoedd – Iesu wedi concro angau a'r bedd. Mae'n Iesu byw, ac ef yw ffynhonnell ein dathliadau a'n llawenydd.

Wn i ddim ai llyfr y byddwch chi'n troi ato'n rheolaidd ydi'r Beibl ynteu ornament (gyda'i glasbiau'n sgleinio) sy'n harddu'r dresel Gymreig ydi o? Mae gennym bellach Feibl mewn iaith a chystrawen yr ydyn ni'n ei deall, er bod rhai'n mynnu bod yr hen gyfieithiad yn rhagori ar y newydd. Beth bynnag am hynny, dewiswch chi pa un sydd orau gennych. Ond gwnewch adduned i dreulio cyfnod byr bob dydd yn darllen adran o'r

Beibl. Mae yna ddigonedd o lawlyfrau ac esboniadau i'ch helpu i ddeall a dehongli'r Gair. Beth am alw ffrind neu ffrindiau i ymuno efo chi i drafod ei neges a'i gymhwyso ar gyfer heddiw. Pwrpas astudio'r Beibl yw gweld ei arwyddocâd i'n cyfnod ni heddiw.

Ond nid digon ydi cadw'r neges, y newyddion da, i ni ein hunain. Rydyn ni'n cael ein galw i'w rannu ag eraill. Rydyn ni byth a hefyd yn poeni am ein hiachawdwriaeth bersonol, ond mae Iesu'n ein hannog i feddwl am eraill. Iesu oedd 'y dyn er mwyn eraill', ac mae'n gofyn i ninnau ei efelychu ym mhob ffordd. Nid cwestiwn cyntaf Iesu oedd, 'Wyt ti wedi dy achub'? Gweld angen dyn oedd y cam cyntaf. Helpu'r unigolyn trwy ddangos cariad a thosturi. Faint o'r cariad a'r tosturi hwn ydyn ni'n ei ddangos a'i weithredu, tybed? Addunedwn: byddwn yn fwy ffyddlon i'w eglwys, darllenwn y Beibl i weld beth yw ei neges a'i her i ni heddiw, ac awn allan i weithio yn enw Iesu.

Myfyrdod pellach:

Fyddwch chi'n gwneud addunedau? Fyddwch chi'n cadw atyn nhw?

Pa werth sydd yna i astudio'r Beibl y dyddiau hyn?